

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol - Canolfan Gymdeithasol Golan

Dyddiad:

1af o Hydref, 2026

Presennol

John Till (Cadeirydd), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Clifford Williams (Garndolbenmaen) Megan Lloyd Williams (Golan), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg) Iddon Edwards (Penmorfa) June Jones (Cyngor Gwynedd)

Croesawyd aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau

Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), John Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

Datgan Buddiant

Neb

Penderfyniadau

Arwydd Pont Isel - Derbyniwyd cynllun i osod arwydd "Pont Isel" ychwanegol gyferbyn yr hen swyddfa bost yng Nghriccieth; fodd bynnag, codwyd pryderon bod y lleoliad ar y Stryd Fawr yn rhy brysur. Argymhellir y dylid ei osod ar waelod allt Caerdyddni er mwyn gwella gwelededd a diogelwch i ddefnyddwyr y ffordd. Clerc i basio'r sylwadau yma ymlaen i'r Uned Draffig.

Diffyg Gwasanaeth gan y Post Brenhinol - Adroddwyd bod yna ddiffyg gwasanaeth rheolaidd gan y Post Brenhinol ar y funud oherwydd prinder staff. Cynigodd GE ein bod yn ysgrifennu atynt ac roedd pawb yn cydweld.

Anfoneb Etholiad 2022 - Cynigwyd gan GE ac eiliwyd gan MLW ein bod yn derbyn y gostyngiad yn yr anfoneb o £642 i £214. Rydym yn cymryd fod y gostyngiad yma oherwydd y camweinyddu gan Gyngor Gwynedd ac arweiniodd at waith ychwanegol i'r clerics ar y pryd. Clerc i gysylltu yn ôl yn nodi hyn.

Tudalen Facebook - Trafodwyd y posibilrwydd o greu tudalen Facebook ar gyfer y Cyngor Cymuned er mwyn ymgysylltu hefo'r cyhoedd a hefyd er mwyn denu diddordeb carfan iau i waith y Cyngor Cymuned. Soniwyd y bydd angen polisi mewn lle yn gyntaf. Clerc i greu polisi ac i'w gyflwyno yn y cyfarfod misol nesaf.